# Addysg / Education

Moderneiddio Addysg
*Modernising Education*

☎ (01286) 679247 Ein Cyf / Our Ref: Ysgol Felinwnda
Moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru
*Modernisingeducation@gwynedd.llyw.cymru*

22 Tachwedd 2023

**At**: Holl ymgynghorai yn gysylltiedig â’r cynnig i gau Ysgol Felinwnda, yn unol â’r Cod Trefniadaeth Ysgolion

Annwyl Ran-ddeiliad,

***Par.: Y cynnig i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023 a’r disgyblion presennol i drosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, sef Ysgol Bontnewydd neu Ysgol Llandwrog, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024.***

Yn ei gyfarfod ar 7 Tachwedd 2023 bu i Gabinet Cyngor Gwynedd benderfynu cymeradwyo'n derfynol y cynnig i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023 a’r disgyblion presennol i drosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, sef Ysgol Bontnewydd neu Ysgol Llandwrog, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024.

Datblygwyd y cynnig o ganlyniad i’r prif heriau oedd yn wynebu’r ysgol, sef:

- nifer y dysgwyr yn yr ysgol yn peri pryder, gyda dim ond 8 dysgwr yn mynychu’r ysgol (Medi 2023)
- rhagamcanion niferoedd dysgwyr yn parhau i fod yn fregus,
- maint y dosbarthiadau yn fychan – dau ddosbarth gyda tri dysgwr mewn un a phump yn y llall (Ionawr 2023).

Wrth benderfynu ar y cynnig, bu i’r asesiadau canlynol gael eu hystyried yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (11/2018):

- Ansawdd a safonau mewn addysg
- Yr angen am leoedd a’r effaith ar hygyrchedd ysgolion
- Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill
- Ffactorau cyffredinol eraill
- Ffactorau penodol wrth ystyried cau ysgolion
- Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio
- Yr effaith debygol ar y Gymuned
- Yr effaith debygol ar yr Iaith Gymraeg
- Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg
- Cydraddoldeb
- Gofynion Deddf Llesiant a Chenedlaethau’r Dyfodol 2015



Swyddfa’r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.gov.uk

Yn dilyn cynnal cyfnod gwrthwynebu statudol rhwng 5 Medi – 4 Hydref 2023 cyflwynwyd adroddiad gwrthwynebu i Gabinet ar 7 Tachwedd 2023 ( [Adroddiad Cabinet 7 Tachwedd 2023 - Adroddiad Gwrthwynebu (Eitem 6)]) . Derbyniwyd **4** o wrthwynebiadau i'r cynnig, a crynhoir y gwrthwynebiadau hyn ynghyd ag ymateb yr awdurdod lleol yn yr adroddiad gwrthwynebu a gyflwynwyd i'r Cabinet. Mae'r adroddiad yma ynghyd â dogfennau perthnasol eraill ar gael ar www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg.

Yn dilyn ystyried yr adroddiad gwrthwynebu, roedd y Cabinet yn fodlon mai'r cynnig i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, a chynnig i'r dysgwyr presennol i drosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, sef Ysgol Bontnewydd neu Ysgol Llandwrog, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024 yw'r ymateb mwyaf priodol i'r heriau y mae'r ysgol yn eu hwynebu.

Amlinellir isod y rhesymau dros gymeradwyo'r cynnig, gan gyfarch y ffactorau perthnasol a nodir yn adrannau 1.3 i 1.7 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion:

**Ansawdd a safonau mewn addysg:**

- Byddai gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Felinwnda yn golygu fod y plant yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas, gan gynnig mwy o gyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu a chydweithio yn ddyddiol gyda chyfoedion;
- Yn seiliedig ar ganlyniad yr asesiad effaith ar Ansawdd a Safonau Addysg, a thrwy gymharu adroddiadau Estyn, deuir i'r casgliad fod safon yr addysg a ddarperir yn y ddwy ysgol amgen cyfagos yn uwch (Ardderchog), ac o leiaf gystal (Da), i gymharu a safon yr addysg yn Ysgol Felinwnda (Da). O ganlyniad, rhagwelir y byddai effaith positif tebygol o safbwynt ansawdd a safonau addysg yn deillio o weithredu'r cynnig;

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion:**

- Byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at well cysondeb mewn maint dosbarthiadau a lleihau'r ystod oedran o fewn dosbarthiadau ysgolion cynradd yr ardal gyda'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn ysgolion ble mae'r niferoedd a rhagamcanion yn fwy cadarn a chynaliadwy i'r dyfodol.

**Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill:**

- Byddai gweithredu'r cynnig yn rhesymoli cost fesul dysgwr mewn ysgolion ac yn lleihau'r amrediad mewn cost fesul dysgwr i holl blant Gwynedd;
- Rhagwelir y byddai gwireddu'r cynnig yn arwain at arbediad blynyddol mewn costau refeniw.

**Ffactorau cyffredinol eraill:**

- Byddai gweithredu'r cynnig yn golygu fod dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg ble mae defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn gryf;
- Byddai'r dysgwyr yn parhau i dderbyn eu haddysg mewn ysgol o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi ac yn derbyn cludiant yn unol â pholisi Cludiant y Sir.

**Ffactorau penodol wrth ystyried cau ysgolion:**

- Derbyniwyd sylwadau am effaith cau'r ysgol ar y gymuned yn ystod y cyfnod gwrthwynebu. Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliwyd asesiad o effaith y cynnig arfaethedig ar y gymuned. Rhoddwyd ystyriaeth bellach i effaith y cynnig ar y gymuned yn dilyn ystyried y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd, a daethpwyd i'r casgliad y rhagwelir peth effaith negyddol ar y gymuned pe gweithredir y cynnig i gau'r ysgol. I liniaru'r effaith ar y gymuned nodir cyfleon i sicrhau fod cymuned Llanwnda yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgolion amgen

cyfagos, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng yr ysgolion amgen cyfagos a chymuned Ysgol Felinwnda, lle'n briodol.

- Ystyriwyd nifer o opsiynau rhesymol eraill wrth ddatblygu'r cynnig, gan gynnwys clystyru, cydweithredu neu ffedereiddio ag ysgolion eraill. Serch hynny, y mae'r Adran Addysg o'r farn, na fyddai'r un o'r opsiynau hyn yn mynd i'r afael a'r prif heriau sy'n wynebu'r ysgol, sef:
    - nifer y dysgwyr yn yr ysgol yn peri pryder, gyda dim ond 8 dysgwr yn mynychu'r ysgol (Medi 2023);
    - rhagamcanion niferoedd dysgwyr yn parhau i fod yn fregus,
    - maint y dosbarthiadau yn fychan – dau ddosbarth gyda tri dysgwr mewn un a phump yn y llall (Ionawr 2023).

Mae'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar **7 Tachwedd 2023** yn ymhelaethu ar y cefndir, a'r broses statudol gan gynnwys y cyfnod gwrthwynebu, gan gynnwys yr ystyriaethau uchod. Mae'r adroddiad yma ynghyd â dogfennau perthnasol eraill ar gael ar www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg

Yn unol â'r penderfyniad uchod, bydd **Ysgol Felinwnda yn cau ar 31 Rhagfyr 2023,** a'r disgyblion presennol yn trosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, sef Ysgol Bontnewydd neu Ysgol Llandwrog, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024.

Yn ogystal a'r penderfyniad i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, a'r disgyblion presennol i drosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, sef Ysgol Bontnewydd neu Ysgol Llandwrog, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024, bu i'r Cabinet gymeradwyo:

- trefniadau cludiant ar gyfer y cyfnod trosiannol yn unig, fyddai'n cynnig cludiant am ddim i'r dysgwyr rheiny sydd wedi cofrestru yn Ysgol Felinwnda ar hyn o bryd, ac yn byw yn nalgylch Ysgol Felinwnda, i Ysgol Bontnewydd neu Ysgol Llandwrog, am weddill cyfnod y dysgwr yn un o'r ysgolion rheiny, yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.

- caniatáu cynnal ymgynghoriad ar ddyfodol dalgylch presennol Ysgol Felinwnda er mwyn cytuno pa ysgol, neu ysgolion, fydd yn gwasanaethu fel ysgol dalgylch i blant dalgylch presennol Ysgol Felinwnda i'r dyfodol.

Mi fydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn fuan yn 2024. Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet gyda argymhelliad ar gyfer ysgol/ysgolion dalgylch ar gyfer dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Felinwnda i'r dyfodol.

Os ydych angen gwybodaeth bellach, croeso i chi gysylltu gyda ModerneiddioAddysg@gwynedd.llyw.cymru

Yn gywir,



**Dafydd Gibbard**
Prif Weithredwr
Cyngor Gwynedd